Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cynllun gweithgaredd

# Pam mae corsydd yn bwysig?

| | |
|---|---|
| **Cyfnod Allweddol/Grŵp oedran** | **CA2/3** |
| **Amser i gwblhau'r gweithgaredd** | **15 – 30 munud** |
| **Lleoliad** | **Dan do neu yn yr awyr agored** |

## Cyd-destun

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn dangos pa mor bwysig yw rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac mae'n canolbwyntio ar gorsydd a gwlyptiroedd a'r buddion lu sy'n deillio ohonynt. Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am yr aer, y tir, y dŵr, y bywyd gwyllt, y planhigion a'r pridd er mwyn gwella llesiant Cymru a chynnig dyfodol gwell i bawb.

### Cysylltiadau â'r cwricwlwm

| | ADCDF – yr amgylchedd naturiol | Daearyddiaeth | ABCh | |
|---|---|---|---|---|
| **CA2** | • Mae pobl yn dibynnu ar yr amgylchedd i gael ynni, bwyd, a deunyddiau ac adnoddau o fath arall | • Arsylwch a gofynnwch gwestiynau am le, amgylchedd neu fater daearyddol<br>• Byw yn fy myd: gofalu am leoedd ac amgylcheddau, a'r pwysigrwydd o fod yn ddinesydd byd-eang | • Gwerthfawrogi byd natur fel ffynhonnell ysbrydoliaeth | **Sylwer – bydd y gweithgaredd hwn yn eich helpu i gyflawni agweddau ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd hefyd, ynghyd â'r Fframwaith Cymwyseddau Digidol** |
| **CA3** | • Deall sut mae gweithgareddau pobl yn newid amgylcheddau lleol a byd-eang | • Meithrin barn a deall bod gan bobl werthoedd, agweddau a safbwyntiau gwahanol mewn perthynas â materion daearyddol | • Defnyddio gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith<br>• Deall materion amserol, yn lleol ac yn fyd-eang | |

Bydd y gweithgaredd hwn yn eich helpu i gyflawni ar sail y cwricwlwm presennol a bydd yn galluogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a nodir ym mhedwar diben y Cwricwlwm i Gymru.

## Amcanion

**Erbyn diwedd y gweithgaredd hwn, bydd y dysgwyr yn gallu:**

- Nodi rhai rhesymau pam mae corsydd yn bwysig
- Disgrifio pa resymau sydd bwysicaf iddynt
- Deall bod corsydd yn darparu buddion lu i bobl a'r amgylchedd

## Offer ac adnoddau

- **Cardiau adnoddau – Pam mae corsydd yn bwysig?**

## Beth i'w wneud

Gellir addasu'r gweithgaredd a'i gynnal mewn gwahanol ffyrdd (gweler 1 i 3). Hefyd, gellir ei ddefnyddio i gyflwyno neu gadarnhau pethau a ddysgwyd yn ymwneud â chorsydd, newid hinsawdd a chynaliadwyedd.

Gofynnwch i'r grŵp pam mae corsydd yn bwysig a thrafodwch eu syniadau.

1. Yn annibynnol neu mewn grwpiau bach, dosbarthwch set o gardiau adnoddau a gofynnwch i'r dysgwyr roi'r cardiau mewn trefn – o'r buddion pwysicaf y mae corsydd yn eu darparu, yn eu tyb nhw, i'r buddion lleiaf pwysig.
2. Gyda grwpiau mwy, rhowch gerdyn i bob dysgwr. Mewn grwpiau, gofynnwch i'r dysgwyr sefyll mewn trefn i adlewyrchu'r buddion y mae corsydd yn eu darparu – o'r buddion pwysicaf i'r rhai lleiaf pwysig. Cymharwch a thrafodwch y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y grwpiau.
3. Gall dysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau bach i roi trefn ar y naw cerdyn adnoddau trwy ddefnyddio'r 'dull diemwnt'. Gofynnwch i bob grŵp osod y cardiau ar ffurf diemwnt, gyda'r cerdyn pwysicaf ar y brig, dau gerdyn yn yr ail res, tri cherdyn yn y drydedd res (pwysigrwydd canolig), dau gerdyn yn y bedwaredd res a'r cerdyn lleiaf pwysig ar y gwaelod. Rhaid i aelodau'r grŵp gytuno ar y drefn, a gallant symud y cardiau o gwmpas hyd nes y dônt o hyd i drefn y mae pob un ohonynt yn cytuno arni.

Esboniwch nad oes yna atebion cywir neu anghywir. Pwrpas y gweithgaredd hwn yw annog trafodaeth a galluogi'r myfyrwyr i ddysgu y gall corsydd ddarparu buddion lu i bobl a'r amgylchedd.

## Cwestiynau allweddol

- **Beth, yn eich tyb chi, yw'r budd pwysicaf y mae corsydd yn ei ddarparu?**
- **Beth allwch chi ei wneud ar lefel bersonol i helpu i warchod corsydd?**

## Addasu'r gweithgaredd ar gyfer anghenion/galluoedd gwahanol

### Llai abl

- Gallwch gael gwared â rhai cardiau a chanolbwyntio ar opsiynau 1 a 2.

### Mwy abl

- Ymchwiliwch a oes yna fuddion eraill y mae corsydd yn eu darparu, ac ychwanegwch gardiau at y set.
- Cwblhewch y gweithgaredd gan ddefnyddio'r cerdyn/cardiau ychwanegol.

## Gweithgaredd dilynol/estyniad

- Ewch ati i greu siartiau a graffiau i ddangos pa reswm oedd yr un mwyaf poblogaidd ymhlith y dysgwyr e.e. creu siart far allan o bobl: gosodwch y cardiau ar y llawr a gofynnwch i'r plant sefyll mewn llinellau syth o flaen y cerdyn a ddewiswyd ganddynt er mwyn creu'r 'bariau'.
- Defnyddiwch gelf naturiol i ddangos ym mha ffordd y mae corsydd yn bwysig.

**Rhowch gynnig ar ein gweithgareddau eraill yn ymwneud â chorsydd:**

- Cynllun gweithgaredd – Corsydd: gwir ynteu gau?
- Cynllun gweithgaredd – Cyfrifydd carbon mawn

## Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk** os gwelwch yn dda, neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
**0300 065 3000**